Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 16 Hydref 2019

Prifysgol Aberystwyth

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg):	Dr Hefin Jones (Cadeirydd), Yr Athro Siwan Davies, Yr Athro Mererid Hopwood, Yr Athro Eleri Pryse, Dr Prysor Williams
Aelodau (Sefydliad):	Dr Gwenno Ffrancon, Dr Cerys Jones, Elen Mai Nefydd, Llŷr Roberts, Dr Paula Roberts, Daniel Tiplady, Dr Catrin Haf Williams
Aelodau (Myfyrwyr):	Megan Colbourne, Tomos Ifan, Lleucu Myrddin, Emyr Owen, Sara Patterson
Aelodau (Addysg Bellach):	Carys Swain
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Mari Fflur, Rhian Jones, Gwenllian Owen (Rheolwyr Academaidd)
Ymddiheuriadau:	Nia Brown, Rebecca Bowen, Judith Davies, Dr Jonathan Morris, Dr Dylan Foster Evans, Dr Awen Iorwerth, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Delyth Murphy, Dr Euryn Roberts, Dr Haydn Edwards, Elis Alsopp

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a sylwadau agoriadol	1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod ac yn arbennig Elen Mai Nefydd, Prifysgol Glyndŵr a Gwenllian Owen i'w cyfarfod cyntaf. 1.2 Estynnwyd croeso i gynrychiolwyr myfyrwyr o brifysgolion Bangor, Aberystwyth, Glyndŵr, Abertawe a Met Caerdydd. Diolchwyd i Mared Jones am drefnu diwrnod hyfforddi ar		

	gyfer y myfyrwyr. 1.3 Diolchodd y Cadeirydd i Brifysgol Aberystwyth am gynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau diddordeb	2.1 Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2019	3.1 Nodwyd bod yr Athro Eleri Pryse yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir a chyflawn.	Diweddaru'r rhestr presenoldeb gyfer 8 Mai 2019.	Ar unwaith
4. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Academaidd	4.1 Adroddwyd bod cylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd eisoes wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. 4.2 Nodwyd un prif newid, sef y dull o apwyntio cynrychiolwyr myfyrwyr er mwyn sicrhau cynrychiolydd o bob sefydliad. 4.3 Derbyniwyd y cylch gorchwyl gan y Bwrdd Academaidd. 4.4 Yn dilyn cwestiwn gan aelod, nodwyd bod Bwrdd Strategol ôl-16 yn cael ei sefydlu o fewn y Coleg a fydd o'r un statws â'r Bwrdd Academaidd.		
5. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	5.1 Nodwyd bod y cyd-destun allanol yn heriol ar hyn o bryd. 5.2 Adroddwyd bod Cynllun Strategol newydd y Coleg allan am ymgynghoriad ar hyn o bryd. 5.3 Nodwyd bod datblygiadau pwysig yn parhau i ddigwydd yn dilyn ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i'r maes ôl-16. Cyhoeddwyd strategaeth Addysg Bellach yn amlinellu gweithgareddau'r Coleg mewn partneriaeth â chyrff eraill. 5.4 Llongyfarchwyd Meri Huws ar gael ei phenodi yn Gadeirydd y Bwrdd ôl-16 newydd. Bydd y Bwrdd Strategol ôl-16 yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 5 Tachwedd 2019.		

	5.5 Nodwyd nad yw cefnogi darpariaeth Safon Uwch yn rhan o gylch gorchwyl y Coleg ar hyn o bryd (heblaw am brosiect penodol yn ymwneud â Safon Uwch Cymraeg). Mae cyfrifoldebau'r Coleg yn y maes ôl-16 yn ymwneud yn bennaf gyda chymwysterau galwedigaethol.. 5.6 Nodwyd bod cyllideb y Coleg mewn perthynas â'r sector Addysg Uwch wedi aros yn gymharol sefydlog ers cyhoeddi Adroddiad Diamond. Mae'r Coleg yn trafod gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar draws y sectorau. 5.7 Adroddwyd bod cyfarfodydd cynllunio gyda'r prifysgolion yn digwydd ar hyn o bryd. Bydd pob cyfarfod wedi'i gynnal erbyn diwedd y mis. Nodwyd bod nifer o feysydd newydd wedi'u crybwyll ac mae'r trafodaethau yn parhau. 5.8 Nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi cyfarfod gyda dau Is-Ganghellor newydd ym Mangor ac Abertawe. 5.9 Cafwyd cyflwyniad ar lafar gan Dr Dylan Phillips ar ysgoloriaethau ymchwil y Coleg. Dyfarnwyd nifer o ysgoloriaethau ymchwil eleni ac mae 13 o'r deiliaid wedi dechrau ar eu hastudiaethau. Mae'r gwahoddiad ar gyfer y cylch nesaf o ysgoloriaethau wedi mynd allan gyda'r dyddiad cau ar ddiwedd mis Ionawr 2020. 5.10 Nodwyd bod angen diweddaru gwefan y Coleg er mwyn adlewyrchu'r ystod o ysgoloriaethau a ddyfarnwyd yn hanesyddol.		
6. Cynllun Strategol y Coleg	6.1 Cyflwynwyd cyd-destun y ddogfen a'r bwriad o gael cynllun lefel uchel a fydd yn gyfredol am rai blynyddoedd. 6.2 Nodwyd bod aelodau Bwrdd y Coleg wedi cael diwrnod llawn yn trafod y Cynllun Strategol ac adlewyrchir ffrwyth y trafodaethau hyn yn y ddogfen. 6.3 Gwahoddwyd ymatebion gan brifysgolion, sefydliadau ac	Prifysgolion i ymateb	Erbyn 4

	unrhyw unigolion sy'n dymuno ymateb. Amlinellwyd y cwestiynau ar y ddogfen ymgynghorol a nodwyd y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion sef 4 Tachwedd. 6.4 Ar ôl ystyried yr ymatebion, bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cytuno ar fersiwn derfynol o'r cynllun a cynhelir lansiad yn y Senedd ar 5 Chwefror 2020. 6.5 Cafwyd trafodaeth ar fer ar y ddogfen a nodwyd nifer o sylwadau positif. Awgrymwyd y dylid ystyried rhoi mwy o bwyslais ar agweddau megis cynaliadwyedd yn y ddogfen. 6.6 Nodwyd y bydd adran ar fesur llwyddiant yn cael ei chynnwys yn y cynllun terfynol a bydd y Bwrdd Academaidd yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd.	i'r ymgynghoriad.	Tachwedd 2019
7. Materion y myfyrwyr Papur trafod: Diffyg modiwlau Cymraeg yn ein prifysgolion a'r hyn sydd yn diffinio modiwl Cymraeg	7.1. Cyflwynwyd y papur gan Megan Colbourne a Tomos Ifan. 7.2. Mewn ymateb, nodwyd bod gan fyfyrwyr hawl ym mhob sefyllfa i gyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae hynny'n wir am bob modiwl ym mhob prifysgol. Mae'n rhaid fod elfen o'r dysgu ffurfiol yn gyfrwng Cymraeg i fodiwl allu cyfrif fel un cyfrwng Cymraeg. Mae nodi bod modiwl yn gyfrwng Cymraeg (fel yn achos modiwl 'B' yn y papur) yn groes i ganllawiau cyllido HEFCW. Bydd y Coleg yn tynnu sylw'r Cyngor Cyllido at unrhyw gofnodi ar gam. 7.3. Nodwyd bod canllaw i ddiffinio modiwl cyfrwng Cymraeg eisoes wedi'i gyhoeddi gan HEFCW ond yn ystod trafodaeth cytunwyd ar yr angen i'w ddiweddaru. 7.4. O safbwynt asesu gwaith, nodwyd bod canllawiau newydd y QAA yn nodi y dylai gwaith gael ei farcio gan siaradwr Cymraeg ac na ddylai gael ei gyfieithu ond mewn sefyllfa eithriadol. Nodwyd nad yw staff sydd ddim yn siaradwyr Cymraeg o fewn adrannau bob amser yn ymwybodol o, nac yn gweithredu, hawliau siaradwyr		

		Cymraeg.		
	7.5.	Nododd GFf fod Comisiynydd y Gymraeg wedi hysbysu Prifysgol Abertawe fod rhaid i ddisgrifiad a theitlau pob modiwl fod ar gael yn Gymraeg ac y gallai hynny roi camargraff i fyfyrwyr.		
	7.6.	Cytunwyd y bydd swyddogion y Coleg yn llunio strwythur aml-lwybr fydd yn caniatáu i fyfyrwyr godi pryderon ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda'r sefydliad yn y man cyntaf a gyda'r Coleg os na fydd y broblem yn cael ei datrys. Bydd swyddogion y Coleg hefyd yn trafod yr enghreifftiau penodol a godwyd yn y papur gyda'r cynrychiolwyr myfyrwyr.	Llunio strwythur	Hydref 2019
	7.7.	Cytunwyd i ofyn i HEFCW gyhoeddi cylchlythyr newydd yn adolygu'r canllaw sy'n diffinio modiwl cyfrwng Cymraeg.	Cysylltu â HEFCW	Hydref 2019
	7.8.	Cytunwyd i osod amod wrth ddarparu grantiau pynciol bod y llawlyfr cwrs yn nodi'n glir pa elfennau o fewn modiwl sydd yn gyfrwng Cymraeg.	Gosod amod wrth ddarparu grantiau pynciol	Hydref 2019
	7.9.	Cytunwyd hefyd y bydd y Coleg yn anfon llythyr at bob prifysgol yn nodi bod y drafodaeth wedi digwydd ac yn gofyn am gadarnhad fod pob prifysgol yn gweithredu canllaw'r QAA.	Ysgrifennu at brifysgolion	Hydref 2019
	7.10.	Diolchwyd i gynrychiolwyr y myfyrwyr am y papur.		
8. Cyflwyniad ar ddata	8.1.	Rhoddwyd cyflwyniad ar ddata myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg gan y Cofrestrydd.		
	8.2.	Bu cwymp yn nifer ceisiadau gan fyfyrwyr o Gymru i brifysgolion yng Nghymru yn 2017/18, ond arhosodd y nifer wnaeth dderbyn lle gan brifysgolion yng Nghymru yn gyson.		
	8.3.	Nodwyd bod cyd-destun ehangach i'r data a nifer ceisiadau i brifysgolion yn cael effaith, ond y bu cynnydd		

	yn y nifer o fyfyrwyr israddedig llawn amser sy'n astudio 40cr ers sefydlu'r Coleg. Mae llawer mwy o fenywod nac o ddynion yn astudio'n Gymraeg. Mae pynciau 'newydd' yn profi cynnydd amlwg, ac mae Gwyddorau Iechyd yn boblogaidd iawn. Mae'r farchnad myfyrwyr yn newid a rhaid bod yn effro iawn i hynny. 8.4. Yn y drafodaeth nodwyd: - Bod rhai cyfleoedd i gynnig 5cr i nifer helaeth o fyfyrwyr, er mai ar 40cr y mae'r Coleg yn canolbwyntio ei ymdrechion - Pwysigrwydd datblygu cysylltiad agos rhwng adrannau ac athrawon - Y dylid gwahaniaethu rhwng canrannau a niferoedd wrth drafod data - Goblygiadau rhwydwaith Seren 8.5. Cytunwyd y bydd y Coleg yn dosbarthu dadansoddiad o'r patrymau pynciol ar draws Prydain, er gwybodaeth.	Dosbarthu dadansoddiad	Ionawr 2020
9. Addysg Gychwynnol Athrawon	9.1. Cyflwynodd RhJ bapur. Nododd fod trafodaethau'n parhau gyda'r Llywodraeth ond bod pethau'n fwy cadarnhaol na flwyddyn yn ôl. Mae gan y Coleg rôl yn cymedroli portffolios iaith darpar athrawon. 9.2. Yn dilyn trafodaeth nodwyd: - Bod y pwll o ddarpar athrawon cyfrwng Cymraeg yn rhy fach i ddiwallu gofynion y cynlluniau addysg sirol newydd. - Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu grŵp i edrych ar farchnata'r proffesiwn yn fwy cyffredinol a bydd DT yn mynd i'r cyfarfod cyntaf. - Roedd aelodau o'r Bwrdd yn credu bod gofyn i'r Llywodraeth roi cyngor cryfach i'r Cyngor Gweithlu Addysg ynglŷn â hyfforddi athrawon a		

	all ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. 9.3. Nododd RhJ nad yw recriwtio yn rhan uniongyrchol o gylch gorchwyl y Coleg. 9.4. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull grŵp o ymarferwyr i greu'r fframwaith newydd a fydd yn cyfarfod ddydd Gwener (18 Hydref) i drafod beth fydd cynnwys y portffolio ar gyfer cymedroli eleni a materion eraill.		
10. Cynllunio Pynciol: ▪ Cynllun Pwnc y Gymraeg ▪ Adolygu Cynlluniau Pynciol	10.1. **Cynllun Pwnc y Gymraeg:** nodwyd y bu grŵp rhanddeiliaid yn cyfarfod ers 18 mis er mwyn mynd i'r afael â'r cwymp yn y nifer sy'n astudio'r Gymraeg i Safon Uwch. Mae'r grŵp wedi llunio cynllun gweithredu. Mae'r cynllun pwnc yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r cynllun gweithredu. Mae nifer o gynlluniau cyffrous ar droed bellach, e.e. cynllun mentora cydweithredol dan arweiniad Prifysgol Caerdydd a chyllid ychwanegol i ysgolion i gefnogi darpariaeth a chyfoethogi profiadau disgyblion. 10.2. Nodwyd mai niferoedd yw'r brif her yn y cynllun pwnc. 10.3. Yn dilyn trafodaeth nodwyd: - Bod naid sylweddol yn y targed niferoedd o 2018/19 i 2019/20 ond fawr ddim y flwyddyn ganlynol. Nodwyd bod hyn i raddau gan nad oedd un sefydliad wedi darparu manylion. Bydd angen rhoi'r niferoedd yn y fersiwn derfynol. - Y dylid osgoi defnydd o 'ail iaith' lle bo modd ond gan gydnabod mai dyma yw teitlau'r cymwysterau ar hyn o bryd. - Bod cynlluniau i newid cymwysterau TGAU Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) i gymhwyster sy'n seiliedig ar y continwwm ieithyddol, ond mai yn 2025 bydd y newidiadau yn dod i rym.	Addasu'r cynllun pwnc	Ionawr 2020

	10.4. Cytunwyd i wneud y newidiadau hyn cyn cyhoeddi. 10.5. **Adolygu cynlluniau pynciol:** nodwyd bod y Bwrdd eisoes wedi cytuno ar broses adolygu. Yn ystod y flwyddyn hon, bydd y Coleg yn craffu ar gyrhaeddiad pob adran sy'n gynwysedig mewn cynlluniau pwnc o safbwynt targedau 3 blynedd. Bydd y wybodaeth yn cael ei chasglu ynghyd yn ystod dechrau'r ail semester. Bwriedir dod ag adroddiad i gyfarfod tymor yr haf o'r Bwrdd Academaidd gyda system goleuadau traffig yn dynodi sefyllfa pob cynllun pwnc. 10.6. Ochr yn ochr â'r gwaith monitro targedau, bydd agweddau eraill ar y cynlluniau, e.e. adnoddau, yn cael eu hasesu hefyd.		
11. Darlithwyr Cysylltiol	11.1. Nodwyd bod dros 300 wedi cofrestru gyda'r cynllun. 11.2. Daeth 83 i noson wobrwyo'r Darlithwyr Cysylltiol a 95 i'r gynhadledd. 11.3. Roedd 100% o'r adborth yn gadarnhaol i'r gwobrau a'r gynhadledd, ond bwriedir gweithredu ar rai argymhellion. 11.4. Gwahoddir ceisiadau ar gyfer gwobrau 2020 yn y flwyddyn newydd, gyda'r dyddiad cau ddiwedd Chwefror. Bydd gwobr ychwanegol ar gyfer y sector ôl-16. Cynhelir y noson wobrwyo ar 24 Mehefin a'r gynhadledd ar 25 Mehefin yng Nghaerdydd. 11.5. Nodwyd y bydd y Coleg yn ystyried ffyrdd o ymestyn aelodaeth i'r sector ôl-16 a darlithwyr y tu hwnt i Gymru eleni. Nodwyd y bydd gofyn newid y cylch gorchwyl yn sgil hynny, gan na fydd y rhan fwyaf o ddarlithwyr tu hwnt i'r ffin yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	GO i i) Ystyried ymestyn aelodaeth a ii) addasu'r cylch gorchwyl	Cyn cysylltu â'r darlithwyr dan sylw
12. Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi	12.1. Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi, er gwybodaeth.		

▪ Nodi cofnodion drafft y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi 9 Mai 2019	12.2. Nodwyd y caiff y Cylch Gorchwyl ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd. 12.3. Ni lansiwyd yr E-lyfr Ieithyddiaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a hynny am resymau dilys. Lansiwyd yr Ap Tabl Cofnodol ac anogwyd pawb i'w lawrlwytho. Mae'n addas ar gyfer disgyblion a dysgwyr TGAU, Safon Uwch, a myfyrwyr ac o ddiddordeb ehangach hefyd. Mae gwaith hyrwyddo yn mynd rhagddo. 12.4. **Gwerddon:** caiff y rhifyn nesaf ei gyhoeddi ddiwedd y mis ac mae'n cynnwys ystod o bynciau. 12.5. Atgoffwyd yr aelodau bod erthyglau Gwerddon yn gymwys ar gyfer REF ac anogwyd pawb i roi gair ar led ymysg cydweithwyr. Serch hynny, nid oes modd cynnwys pob erthygl a ddaw i law yn syth. Mae erthyglau wedi eu hadnabod ar gyfer rhifyn gwanwyn 2020 ond bydd angen erthyglau ar gyfer rhifyn hydref 2020. 12.6. Mae seddi gwag ar y Bwrdd Golygyddol ac mae angen sicrhau y traws-doriad gorau posib. Efallai na fydd modd derbyn pob enw am y rhesymau hynny ond mae seddi gwag yn codi pob blwyddyn felly mae cyfleoedd yn codi'n aml ar draws y pynciau. Pwysleisiwyd yr angen am academyddion gyrfa cynnar ar y Bwrdd Golygyddol. 12.7. Nodwyd mai rôl y pencampwyr ymchwil yn y sefydliadau yw i ysbrydoli ac i gasglu gwybodaeth. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi creu a rhannu canllawiau. 12.8. **Ymgynghoriad:** ymatebwyd i ymgynghoriad HEFCW ond nid oedd unrhyw gyfeiriad at ymchwil cyfrwng Cymraeg. Nodwyd bod y Coleg wedi codi hynny gyda HEFCW.	Aelodau i hyrwyddo cyfleoedd i gyflwyno erthyglau i Gwerddon. Aelodau i adnabod enwebiadau posib ar gyfer y Bwrdd Golygyddol.	Parhaus Parhaus

13. Ehangu Mynediad a Chyfranogiad ▪ Derbyn adroddiad cynnydd ar y cynllun gweithredu	13.1. Nodwyd mai Adam Jones (AJ) yw'r swyddog â chyfrifoldeb dros Ehangu Mynediad ond nad oedd modd iddo ddod i'r Bwrdd Academaidd oherwydd cyfarfod arall. 13.2. Gofynnwyd i'r myfyrwyr ystyried materion yn ymwneud ag Ehangu Mynediad. 13.3. Nodwyd bod ymateb da i'r gronfa Ehangu Mynediad a bydd y Coleg yn ystyried y ceisiadau yn fuan.	AJ i arwain trafodaeth Ehangu Mynediad yn y cyfarfod nesaf. Cynrychiolwyr myfyrwyr i godi materion penodol yn y cyfarfod nesaf.	Ionawr 2020 Ionawr 2020
14. Materion Canghennau	14.1. Cododd Cangen Caerdydd ddau fater. Nodwyd bod rhywfaint o'r drafodaeth eisoes wedi digwydd o dan eitem 7. 14.2. **Diffiniad o fodiwl cyfrwng Cymraeg:** nodwyd bod peryg o ddrysu rhwng dau fater gwahanol, sef (i) yr hawl i gyflwyno gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob sefyllfa a (ii) sut y cyfrifir nifer y credydau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. 14.3. Nododd DT bod gwahanol ffyrdd o gyrraedd darpariaeth 40cr cyfrwng Cymraeg (dyweder). Mae'n croesgyfeirio data HESA ac yn gweld bod y darlun yn gyson, fel arfer. 14.4. **Asesu cyfrwng Cymraeg:** nodwyd bod canllawiau ar gyfer asesu cyfrwng Cymraeg ond bod angen cadarnhad gan y sefydliadau eu bod yn dilyn y canllawiau. Ni ddylai fod rheswm dros beidio gallu marcio sgriptiau cyfrwng Cymraeg. Mae'n fater o gynllunio yn unol â phrosesau'r QAA. 14.5. Cadarnhawyd bod canllaw y QAA yn nodi'r angen i roi gwybod am gyflwyno gwaith yn y Gymraeg o flaen llaw, ond nid oedd Comisiynydd y Gymraeg yn hapus gyda hyn. 14.6. Cytunwyd i roi'r mater hwn fel pwynt agenda y cyfarfod Bwrdd Academaidd nesaf gan fod mwy i'w drafod.	Coleg i roi ar agenda'r cyfarfod nesaf.	Ionawr 2020

15. Materion yn codi o'r cofnodion na ddeliwyd â hwy'n barod	15.1. **(8.6) Myfyrwyr tu hwnt i'r ffin**: Bydd GO yn ffurfioli'r cyswllt gyda'r rhwydweithiau, gan adeiladu ar y gwaith wnaed gan y Deon. Bydd y Coleg yn nodi'n glir beth yw'r 'cynnig' e.e gwybodaeth am gyfleoedd ôl-raddedig, gwahoddiad i weithgareddau cydweithredol. 15.2. **(14.1) Llythyr Cangen Aberystwyth:** Oherwydd newidiadau yn y Brifysgol nid yw cynnwys y llythyr wedi ei gytuno'n derfynol eto.	GO yn adrodd ar gynnydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. CJ i anfon at y Coleg.	Ionawr 2020 Pan fydd wedi ei gytuno
16. Unrhyw fater arall	16.1. Nid oedd UFA.		
17. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	17.1. Cynigiwyd 29 Ionawr fel dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf ym Mhrifysgol Abertawe (yn hytrach na 5 Chwefror). 17.2. Cynhelir cyfarfod tymor yr haf ar 20 Mai 2020 ym Mhrifysgol Bangor.	Coleg i gadarnhau	Cyn gynted â phosib